Bugeilio’r Gwenith Gwyn

Mi sydd fachgen ieuanc ffôl
Yn byw yn ôl fy ffansi
Myfi'n bugeilio'r gwenith gwyn,
Ac arall yn ei fedi.
Pam na ddeui ar fy ôl,
Ryw ddydd ar ôl ei gilydd?
Gwaith 'rwy'n dy weld, y feinir fach,
Yn lannach, lannach beunydd.

Glannach, glannach wyt bob dydd,
Neu fi yn wir sy'n ffolach;
Er mwyn y Gŵr
  a wnaeth dy wedd
Dod im' drugaredd bellach.
Cwnn dy ben, gwel acw draw,
Rho im' dy law wen dirion;
Gwaith yn dy fynwes bert ei thro
Mae allwedd clo fy nghalon.

Mi godais heddyw gyda'r wawr,
Gan frysio'n fawr fy lludded;
Fel cawn gusanu ol dy droed
Ar hyd y coed wrth gerdded.
O cwnna mhen o'r galar maith,
A serchus iaith gwarineb;
Gwaith mwy na'r byd i'r mab a'th gâr,
Yw golwg ar dy wyneb.

Tra fo dŵr y môr yn hallt,
A thra fo ’ngwallt yn tyfu,
A thra fo calon dan fy mron
Mi fydda'n ffyddlon iti;
Dywed imi'r gwir heb gêl,
A rho dan sêl d'atebion,
P'un ai myfi ai arall, Ann
Sydd orau gan dy galon.